



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 5 Mawrth 2024 am 6.00yh  
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi  
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 5 March 2024 at 6.00pm  
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle  
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

**Presennol/**Present—**Y Cynghorwyr/**Councillors: Siân Maehrlein (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, Nick Bolton, Clive Davies, Olwen Davies, David Maehrlein, Teresa Harries, Richard Davies, Richard Jones, Philippa Noble, Stephen Greenhalgh, Elaine Evans (**Gadawodd y cyfarfod am 7.00yh oherwydd teimlo'n sâl** /left the meeting at 7.00pm due to feeling unwell), Llinos Haf Jones (**Cyfieithydd/**Translator), Mike Lewis (Tivyside) a / and Eleri Maskell (**Clerc/**Clerk).

## 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

**Croesawodd y Maer, y Cynghorydd Siân Maehrlein, y cynghorwyr i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am eu presenoldeb. Estynnwyd croeso ychwanegol i Sue Davies a Jo Hutchings, y Clerc a Chynghorydd o Gymuned Llandudoch, a ymunodd yn fyr i ymchwilio i sut y cynhaliwyd cyfarfod hybrid.**

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Siân Maehrlein, welcomed the councillors to the meeting and thanked them for their presence. An additional welcome was extended to Sue Davies and Jo Hutchings, the Clerk and Councillor from St Dogmaels Community, who joined briefly to research how a hybrid meeting was held.

## 2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.**

**Cyng John Adams-Lewis, gwyliau; Cyng Trystan Phillips, ymrwymadau gwaith; Cyng Richard Jones, ymrwymadau gwaith.**

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllr John Adams-Lewis, holidays; Cllr Trystan Phillips, work obligations; Cllr Richard Jones, work obligations.

## 3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

**Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.**

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr Richard Davies

*Eitem 8 j) / Item 8 j):* Y Cyngorydd Richard Davies yw'r bachan deche a bydd yn elwa o gynnydd mewn unrhyw waith cynnal a chadw a fabwysiedir wrth CSC / Cllr Richard Davies is the handyman and will benefit from an increase in any maintenance adopted from CCC.

**4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd nos Fawrth 6 Chwefror 2024 a nos Fawrth 27 Chwefror 2024.**

**Cynigiwyd y Cyngorwyr bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd Nos Fawrth 6 Chwefror a nos Fawrth 27 Chwefror yn gywir.**

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meetings held on Tuesday 6 February and Tuesday 27 February.

The Councillors proposed that the Tuesday, 6 February and Tuesday 27 February council meetings minutes be recorded as correct.

**5. Adroddiad y Clerc**

**I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2024.**

- Bu gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi trwy'r dref yn ddigwyddiad llwyddiannus a oedd yn cynnwys plant ysgol lleol. Byrhaodd y tywydd y gweithgareddau ond braf oedd gweld criw mor fawr yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Diolchodd pawb a gymerodd ran i'r Cyngor Tref am eu cefnogaeth i wneud cais i gau'r ffordd a thalu'r costau.
- Mae llythyr o gefnogaeth i gais grant gan Bwll Nofio Aberteifi i brynu hwfer pwll llaw wedi'i anfon at y Cyngorydd Catrin Miles, a fydd yn ei rannu gyda'r ymddiriedolwyr.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 6 February 2024.

- The St David's Day march throughout the town proved to be a successful event involving local school children. The weather shortened the proceedings but it was lovely to see such a large group celebrating St David's Day. All involved thanked the Town Council for their support applying for the road closure and covering the costs.
- A letter of support for a grant application by Cardigan Swimming Pool to purchase a handheld pool hoover has been sent to Cllr Catrin Miles, who will share it with the trustees.

**6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat**

**I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.**

**Ni nodwyd dim.**

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

None noted.

## 7. Cynllunio

### Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

#### Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A240077	Meadow View, 30 Dol y Dintir, Aberteifi, Sa43 1NU.	<i>Bwriad i ddymchwel garej presennol a chodi estyniad ar ochr dde'r estyniad presennol i gynnwys lolfa, ystafell amblwrpas, sied a garej. Teras tô arfaethedig a'r holl waith cysylltiedig / Proposed demolition of existing garage and erection of extension to right hand side of existing extension to include lounge, utility room, shed and garage. Proposed roof terrace and all associated works.</i>	<i>Caniataodd y cynghorwyr y cais ar y sail nad oedd y teras tô bwriedig yn y cefn a wal flaen yr estyniad yn ymestyn heibio i'r adeilad presennol; Mae stepen rhwng uchder crib yr estyniad arfaethedig ac uchder y tŷ presennol; defnyddir deunyddiau adeiladu tebyg i'r tŷ gwreiddiol yn yr adeilad newydd; I sicrhau nad oes goredrych i'r eiddo cyfagos a bod sgrinio digonol yn cael ei ddarparu ar y teras tô / Councillors approved the application on the premiss that the rear proposed roof terrace and the front wall of the extension do not extend past that of the existing building; There is a step between the proposed extension ridge height and that of the existing dwelling; similar construction materials to the original house are used in the new build. To ensure there is no overlook to the adjacent properties and that adequate screening is provided on the roof terrace.</i>
A240148	Mark Jukes Containers, Parc Piliau, Pentood Industrial Estate, Aberteifi, SA43 3AL.	<i>Uned storio arfaethedig newydd ar gyfer busnes therapi harddwch (defnydd suis generis) / Proposed new storage container unit to accommodate a beauty therapy business (suis generis use).</i>	<i>Dim gwrthwynebiad / No objection.</i>

## 8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

### a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
01/03/24	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Mawrth/March) Band Lydan (Mawrth) / Broadband (March)	A9 A20	D/D	£250.00(0.00) £20.00 (0.00)
06/03/24	Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Chwefror/February)	A5	BACS	£1381.88(0.00)
06/03/24	HMRC – Taliad TWE ar gyfer 6 Ionawr 2024 - 5 Chwefror 2024 / PAYE payment for 6 January 2024 – 5 February 2024.	A16	BACS	£266.71(0.00)
06/03/24	Bachan Deche / Handyperson (Chwefror/February)	A19	BACS	£165.00(0.00)
19/02/24	Gwasanaeth cyfieithu/Translating service	A18	BACS	£78.75(0.00)
29/12/23	Argraffwyr EL Jones Printers: Papur A4 a Cardiau Nadolig / A4 Paper and Xmas Cards Tafleenni Sul y Cadoediad ayyb / Remembrance Sunday Digwyddiadau'r Gaeaf / Winter Events	A7 A23 D13	BACS	£144.00(24.00) £346.80(15.80) £136.20(22.70)
12/02/24	CSC Ffi cau strydd – Dydd Gwyl Dewi / St David's Day Road closure fee CCC.	D13	BACS	£60.00(0.00)
06/02/24	Sharp – Photocopying fees	A7	BACS	£30.00(5.00)
05/02/24	Large digital Stopwatch Timer Clock	B8	BACS	£691.25(0.00)
19/02/24	Cardibanners – road closure signs	D13	BACS	£75.00(0.00)
20/02/24	Castell Aberteifi – Llogi ystafell cyfarfod/room hire	A9	BACS	£165.00(27.50)
29/02/24	M & E Pearce Ltd	C3	BACS	£50.58(8.43)
01/03/24	Parc Piliu – Christmas lights storage	B1	BACS	£1200.00(200.00)

#### **Derbyniadau/Receipts:**

09/02/2024 Lloyds Bank: Llog / Interest

£89.44

#### **Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.**

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

### b) Gohebiaeth / Correspondence.

	Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read	Sylwadau / Comments
279	Janice Thomas – Swyddog Cyfathrebu / Communications Officer, Barcud: Dosbarth Garddio yn Llanbedr Pont Steffan / Gardening Class at Lampeter.	Mae Cyng Elaine Evans yn awyddus i efelychu'r clwb garddio hwn yn Aberteifi. Mae swyddog bioamrywiaeth newydd wedi'i benodi yn CSC yn ddiweddar ac efallai y bydd yn gallu rhoi rhywfaint o arweiniad / Cllr Elaine Evans is keen to emulate this gardening club in Cardigan. A new biodiversity officer has recently been appointed at CCC who may be able to provide some guidance.
284	Un Llais Cymru / One Voice Wales: Bwletin Newyddion Chwefror / February News Bulletin.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 07/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 07/02/2024.
285	CSC Adain Cau Ffyrrd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Maesglas 17/01/2024 – 07/02/2024 14/02/2024 0800-18.00 yn dyddiol / daily.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 07/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 07/02/2024.
286	Cadwch Gymru'n Daclus: Gweminar am ddim Mercher 14 Chwefror – Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy yng	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 08/02/2024.

	<i>Nghymru / Keep Wales Tidy: Free webinar Wednesday 14 February – Sustainable Food Partnerships in Wales.</i>	For your information. Forwarded to all councillors on 08/02/2024.
287	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Pendre, Stryd Fawr, Heol y Priordy, Stryd William, Pwllhai a Lôn Chancery / Pendre, High Street, Priory Street, Williams Street, Pwllhai and Chancery Lane - 09.45 hyd at/to 10.15 a/and 11.15 hyd at/to 11.45.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 09/02/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/02/2024.
288	<i>BroCardi360: Cylchlythyr gwefan fro yn hyrwyddo digwyddiadau lleol / Newsletter from a new website advertising local events.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 09/02/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 09/02/2024.
289	<i>Adran Cylliad a Chaffael, CSC / Finance and Procurement, CCC: Ffurflen praesept ar gyfer newid ffifirau a gyflwynwyd yn barod, estyniad hyd 14 Chwefror 2024 / Precept form to alter figures already submitted, extension until 14 February 2024.</i>	<i>Penderfynodd y cynghorwyr i beidio â newid y ffigyrau a gyflwynwyd eisoes ar gyfer 2024/25 / Councillors resolved not to alter the figures already submitted for 2024/25.</i>
290	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Rachel Carter, Swyddog lleoedd lleol ar gyfer Natur / Local Places for Nature Officer: Digwyddiad nesaf – Glanhau a chynnal a chadw cynaliadwy ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref / Next event – Sustainable cleaning and maintenance for Community and Town Councils.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 13/02/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 13/02/2024.
291	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Coedwig Genedlaethol i Gymru – grantiau Newydd / The National Forest for Wales – new grants.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 14/02/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 14/02/2024.
292	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Maesglas 17/01/2024 –14/02/2024 19/02/2024 0800-18.00 yn dyddiol / daily.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 14/02/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 14/02/2024.
293	<i>Ysgol Celfyddydau Perfformio Dynamix – cais i hysbysebu eu sioe / Dynamix Performing Arts School – request to advertise their show.</i>	<i>Clerc wedi rhoi caniatâd i ddefnyddio ffens y Brenin Siôr V / Clerk gave permission to use the King George V fence.</i>
294	<i>Cynnal a Chadw Priffyrdd, CSC / Highways Maintenance, CCC: Ymateb i ymholiad gwasanaethau graeanu ffyrdd / Reply regarding road gritting services enquiry.</i>	<i>Mae'r ddwy Gynghorydd Sir wedi cysylltu â CSC ynghylch nad yw Rhodfa'r Felin ar y Cynllun Gwasanaethau Gaeaf. Gobeithio y bydd adolygiad y Gwasanaethau Priffyrdd, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, yn mynd i'r afael â'r mater / Both County councillors have contacted CCC regarding Rhodfa'r Felin not being on the Winter Services Plan. Hopefully the Highways Services review, currently underway, will address the issue</i>
295	<i>CSC/CCC: Nodiadau Cyfarfod Cynghorau Thref a Chymuned 2024 De'r Sir / Town and Community Council South of County Meeting Notes.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 19/02/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 19/02/2024.
296	<i>Bwletin Cynnal y Cardi Bulletin.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 19/02/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 19/02/2024.
297	<i>ARFOR – Digwyddiad tai o dan arweiniad cymunedau Ceredigion / Housing under community leadership event.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 20/02/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 20/02/2024.
298	<i>Wendi Patience – Un Llais Cymru / One Voice Wales: D-Day 80 – Baner Heddwch / Flag of Peace.</i>	<i>Penderfynodd y cynghorwyr wneud eu baner eu hunain i ddangos baner Cymru, Clerc i ofyn am fersiwn digidol / The councillors resolved to make their own banner to feature the Welsh flag, the Clerk to ask for a digital version.</i>

299	Steffan Jones – <i>Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd, CSC / Street Naming and Numbering Officer, CCC: Datblygiad Newydd yn Aberteifi / New Development in Cardigan.</i>	<i>Mae cyngorwyr yn falch o'r awgrym bod Cwrt y Farced wedi'i ddewis fel yr enw ar gyfer y datblygiad newydd ar Stryd y Cei / Councillors are very happy that the suggestion of Cwrt y Farced has been chosen as the name for the new development on Quay Street.</i>
300	Beti Gordon – <i>Economi ac Adfywio, CSC / Economy and Regeneration, CCC: Cyfleoedd i wella seilwaith gwyrdd gan CNC / Opportunities to improve green infrastructure by the NRW.</i>	<i>I'w trafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor ar 19 Mawrth 2024 / To be discussed in the Sub-Committee meeting on 19 March 2024.</i>
301	Rhodri Clark: <i>Codau QR pwyntiau hanes / History points QR codes – Three Mariners Inn, Brioude Gardens.</i>	<i>Penderfynodd cyngorwyr ganiatáu i'r cod bar gael ei rhoi yn ôl ar wal Gerddi Brioude / Councillors resolved to allow the bar code to be replaced on wall in Brioude Gardens.</i>
302	BroCardi360 – <i>Gwefan Straeon a digwyddiadau lleol / Local stories and events website.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 27/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 27/02/2024.</i>
303	Jean Luc Vachelard – <i>Maer Brioude: Gwahoddiad i ddigwyddiad "Brioude fete l'Europe" / The Mayor, Brioude: Invitation to the "Brioude fete l'Europe" event.</i>	<i>Cadarnhaodd y Cyng Olwen Davies y bydd yn mynychu'r ffair fel y Maer. Nid yw'r niferoedd terfynol sy'n ymweld â Brioude wedi'i gadarnhau eto / Cllr Olwen Davies confirmed that she will be attending the fete as the Mayor. The final delegation visiting Brioude is not yet confirmed.</i>
304	Rhiannon John – <i>Swyddog Datblygu Trefi Gwledig, CSC / Rural Towns Development Officer, CCC: Nodiadau yn dilyn y cyfarfod ceisiadau grant / Notes following the grant application meeting.</i>	<i>I'w trafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor ar 19 Mawrth 2024 / To be discussed in the Sub-Committee meeting on 19 March 2024.</i>
305	Sara Rees – <i>Llywodraeth Cymru / Welsh Government: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol / Independent Remuneration Panel for Wales Annual Report.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 29/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 29/02/2024.</i>
306	<i>Cyngor Sir Penfro / Pembrokeshire County Council: Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Cyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfor a Chynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol / Pembrokeshire Local Development Plan &amp; Pembrokeshire Coast National Park Local Development Plan 2 Joint Supplementary Planning Guide.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 29/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 29/02/2024.</i>
307	Sian Brooks – <i>Y Prosiect Gwleidyddiaeth / The Politics Project: Gwybodaeth am Wythnos Cofrestru Pleidleiswyr / Information regarding Voter Registration Week.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 29/02/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 29/02/2024.</i>
308	Gareth Blake – <i>Emlyn &amp; Tivyside Parkinson's Support Group: Defnydd o sleid Gobo ar Ddiwrnod Parkinson y Byd, 11 Ebrill / Use of Gobo slide on World Parkinson's Day, 11 April.</i>	<i>Cymeradwyodd y cyngorwyr arddangos y sleid hon os yw Ymddiriedolwyr Castell Aberteifi yn cytuno / The councillors approved this slide being displayed if the Cardigan Castle Trustees concur.</i>
309	<i>Gwyl Fawr Aberteifi: Cais am gymorth ariannol / Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill. To be discussed at the April Grants Sub-committee.</i>

**c) Ethol Maer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2024-25.**

**Cynigiwyd gan y Cyng Stephen Greenhalgh ac eiliwyd gan y Cyng Teresa Harries bod y Dirprwy-Faer, y Cyng Olwen Davies, i'w ethol yn Faer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2024-25. Roedd y cyngor yn unfrydol.**

**Election of Cardigan Town Council Mayor-Elect for 2024-25.**

It was proposed by Cllr Stephen Greenhalgh and seconded by Cllr Teresa Harries that the Deputy Mayor, Cllr Olwen Davies, be elected Cardigan Town Council Mayor-Elect for the year 2024-25. Members were unanimous in their decision.

- d) Ethol Dirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2024-25**  
Cynigiwyd gan y Cyng Elaine Evans ac eiliwyd gan y Cyng Olwen Davies bod y Cyng Stephen Greenhalgh i'w ethol yn Dirprwy-Maer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2024-25.  
Election of Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for 2024-25.  
Cllr Elaine Evans proposed that Cllr Stephen Greenhalgh be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for the year 2024-25. This was seconded by Cllr Olwen Davies.
- e) Trefnu dyddiad am noson Sermemoni Sefydlu'r Maer 2024.**  
Cynhelir y seremoni nos Fawrth 14 Mai 2024 yn Neuadd y Dref.  
Set a date for the Mayor Making Ceremony 2024.  
The ceremony will be held on Tuesday 14 May 2024 at the Guildhall.
- f) Lleoliad i'r Hysbysfwrdd.**  
Penderfynwyd tynnu'r ddau hysbysfwrdd Cyngor Tref oddi ar Cilfach Penbont a gofyn am ganiatâd CSC i leoli un yn agos at y safle bws ar ben Rhiw Grosvenor y tu allan i Gaffi'r Castell a'r llall rhwng y bolardiau yn yr hen faes parcio Canolfan Iechyd yn wynebu Pendre.  
Location for the Noticeboard.  
It was resolved to remove both Town Council noticeboards from Cilfach Penbont and ask for permission from CCC to locate one close to the bus stop at the top of Grosvenor Hill outside Castle Café and the other between the bollards at the old Health Centre car park facing Pendre.
- g) Ffordd fynediad gefn ar gyfer Heol y Gogledd.**  
Bydd yr eitem hon yn cael ei rhoi ar yr Agenda nesaf oherwydd absenoldeb y Cyng Sir Elaine Evans.  
Rear access road for North Road.  
This item will be placed on the next Agenda due to the absence of County Cllr Elaine Evans.
- h) Arwyddion 20mya ar gyfer Rhos y Dre, Maes yr Haf a Maeshenffordd.**  
Bydd yr eitem hon yn cael ei rhoi ar yr Agenda nesaf oherwydd absenoldeb y Cyng Sir Elaine Evans.  
20mph signs for Rhos y Dre, Maes yr Haf and Maeshenffordd.  
This item will be placed on the next Agenda due to the absence of County Cllr Elaine Evans.
- i) Ceisiadau Grant.**  
Bydd yr eitem hon yn cael ei thrafod mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor nos Fawrth 19 Mawrth 2024. Bydd y Cynghorwyr yn paratoi awgrymiadau cadarn, gan gynnwys y costau cyn y cyfarfod.  
Grant applications.  
This item will be discussed at a Sub-Committee meeting on Tuesday 19 March 2024.  
Councillors are to prepare firm suggestions, including costings prior to the meeting.
- j) Ymateb i doriadau mewn gwasanaethau gan CSC.**  
Penderfynodd y Cynghorwyr fabwysiadu cynnal a chadw'r holl fannau gwyrdd a restrwyd gan CSC. Ni fydd unrhyw waith cynnal a chadw ar y Cyfleusterau Cyhoeddus yn cael ei fabwysiadu yn ystod y flwyddyn ariannol hon oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. Mae cynghorwyr yn obeithiol y gall y Cyngor Sir gadw'r rhain ar agor oherwydd yr arbedion a wnaed ar gynnal a chadw'r ardaloedd gwyrdd. Bydd y Clerc yn holi a yw'r ardaloedd yn cael eu prydesu'n swyddogol? A allwn newid polisi torri a chasglu'r sir i dorri a gadael. A oes gennym yn awr yr awdurdod i greu prosiectau plannu newydd yn rhai o'r ardaloedd gwyrdd? Bydd y gwaith cynnal a chadw ar y mannau gwyrdd yn cael ei brosesu yn ôl yr angen, gan ofalu am yr ardaloedd wrth iddynt fynd yn flêr. Bydd pob cynghorydd yn adrodd

**i'r Clerc a'r Bachan Deche am y meysydd y maent yn teimlo sydd angen sylw.**

Response to cuts in services by CCC.

Councillors resolved to adopt the maintenance of all the green areas listed by CCC. No maintenance of the Public Conveniences will be adopted this financial year due to budget constraints. Councillors are hopeful that the county council can keep these open due to the savings made on the green area maintenance. The Clerk will enquire if the areas are officially leased? Can we change the county policy of cut and collect to cut and leave. Do we now have the authority to create new planting projects in some of the green areas? The maintenance of the green areas will be processed on a as needed basis, just tending the areas as they become untidy. All councillors will report to the Clerk and Handyman the areas they feel need attention.

## **9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only**

### **a) Dyddiadur y Maer.**

- **Pleser oedd cael mynychu cyngerdd yn Theatr Byd Bychan i ddathlu deng mlynedd ers sefydlu siop lyfrau Leafed Through a leolir ym Mhendre. Mae'n anhygoel eu bod wedi llwyddo i gyfrannu £50,000 i elusennau lleol dros y cyfnod hwn, llongyfarchiadau i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi galluogi'r prosiect hwn i fod mor llwyddiannus.**
- **Mwynheuon ni'r orymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn fawr iawn, gan ymuno â phlant ysgol lleol ar orymdaith drwy'r dref i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi dydd Gwener diwethaf. Roedd brwdfrydedd y disgyblion am y digwyddiad yn amlwg i'w weld, arweiniwyd yr orymdaith gan Ddraig Goch Theatr Byd Bychan a grŵp o artistiaid drymio. Ymwelodd y grŵp â Chastell Aberteifi cyn dychwelyd i Ysgol Iau Aberteifi ar gyfer gweithgareddau pellach.**
- **Mynychwyd gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi yng Nghapel Mair, a drefnwyd gan dair Cymdeithas Cymraeg Aberteifi a'r Cylch: Cylch Cinio Teifi, Cymrodorion Aberteifi a Merched y Wawr Cylch Teifi.**
- **Mae Ysgol Preseli wedi bod yn croesawu grŵp o fyfyrwyr Sbaeneg sydd wedi bod yn aros yn y Clink yn y dref. I anrhydeddu Dydd Gŵyl Dewi cynhaliais arddangosiad coginio yn gwneud pice ar y maen, yna cafodd y myfyrwyr gyfle i wneud rhai eu hunain, roedd y noson yn llawer o hwyl.**

Mayors' Diary.

- It was a pleasure to attend a concert at the Small World Theatre celebrating the ten-year anniversary of the Leafed Through bookshop situated at Pendre. It's amazing that they have managed to donate £50,000 to local charities over this time, congratulations to all of the volunteers who have enabled this project to run so successfully.
- We thoroughly enjoyed the St David's Day march, joining local school children on a parade through the town to celebrate St David's Day last Friday. The enthusiasm for the event from the pupils was plain to see, the parade was led by the Small World Theatre Red Dragon and a group of drumming artists. The group visited Cardigan Castle before returning to Cardigan Junior School for further activities.
- Attended a St David's Day service at Capel Mair, organised by the Cardigan Welsh Groups: Cylch Cinio Teifi, Cymrodorion Aberteifi and Merched y Wawr Cylch Teifi.
- Preseli school have been hosting a group of Spanish students who have been staying at the Clink in town. In honour of St David's Day I held a cooking demonstration



making Welsh Cakes, the students made then had an opportunity to make their own, the evening was great fun.

**b) Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan.**

- **Mynychu cyfarfod diweddaraf Cyfeillion Pwll Nofio Aberteifi.**
- **Mynychu cyfarfod diweddaraf yr RNIB.**

**CLlr Siân Maehrlein Mwldan Ward.**

- **Attended the latest Friends of Cardigan Swimming Pool meeting.**
- **Attended the latest RNIB meeting.**

**Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi**

**Dim adroddiad wedi ei gyflwyno oherwydd afiechyd**

**CLlr Elaine Evans Teifi Ward**

No report submitted due to ill health.

**c) Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report.**

- i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5<sup>th</sup> Children's Play Area**  
**Mae'r ardal chwarae yn hynod o wlyb a mwdlyd. Mae angen rhywfaint o dywydd sych i alluogi'r tir i sychu. Mae'n debygol iawn y bydd angen ailhadu'r glaswellt oherwydd y gaeaf anarferol o wlyb / The play area is extremely wet and muddy. We need some dry weather to enable the ground to dry out. There is a strong likelihood that the grass will need reseeding due to the abnormally wet winter.**
- ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.**  
**Mae'r mesh yng nghefn y cyrtiau wedi'i atgyweirio. Unwaith y cawn ychydig o dywydd sych bydd y mwsogl a'r chwyn yn y cyrtiau tennis yn cael eu trin. Mae drws y storfa wedi chwyddo ac ni all agor, bydd yn unioni ei hun unwaith y bydd gennym dywydd sychach. Byddaf wedyn yn gallu cael afael ar yr hen rwyd a gosod e yn lle'r un sydd wedi'i rhwygo ar y cwrt tennis. / The wire mesh at the back of the courts has been repaired. Once we have some dry weather the moss and weeds in the tennis courts will be treated. The door to the storage is swollen and unable to open, it will rectify itself once we have drier weather. I will then be able to retrieve the old net and replace the ripped one on the tennis court.**
- iii. **Maes Sgrialu / Skateboard Park**  
**Mae gan y bowlen broblem draenio ac mae'n cadw rhywfaint o ddŵr wyneb ynddo. Mae angen rhywfaint o waith ar y draeniau sy'n rhedeg oddi ar y bowlen i weld a ellir ei ddatgysylltu / The bowl has a drainage problem and is retaining some surface water. The drains running off the bowl need some work to see if it can be unclogged.**
- iv. **Maes Chwarae Pentop / Pentop Play Area.**  
**Bydd angen plannu'r bocsys llyisiau yn y gwanwyn, nid oes llawer ynddynt ar hyn o bryd. Mae angen gwneud arwyddion ar gyfer yr ardal wyllt / The vegetable boxes will need planting in the spring, there is not much in them at the moment. We need signs done for the wilding area.**
- v. **Cyffredinol / General**  
**Mae'r addurniadau Nadolig wedi'u tynnu a'u storio yn ein uned storio newydd. Mae sleid y cennin pedr wedi'i gosod yn y Gobo i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi / The Christmas decorations have been removed and stored in our new storage container. The daffodil slide has been inserted into the Gobo to celebrate St David's Day.**

- d) **Dyddiad Cyfarfod Blynyddol Menter / Date for Menter AGM.**  
**Dim dyddiad wedi'i trefnu eto, ond fe'i cynhelir cyn diwedd mis Mehefin / No date set yet,**  
but it will be held before the end of June.

10. **Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf**

Items for the next Agenda

**Ffordd fynediad gefn ar gyfer Heol y Gogledd / Rear access road for North Road;**

**Arwyddion 20mya ar gyfer Rhos y Dre, Maes yr Haf a Maeshenffordd / 20mph signs for Rhos y Dre, Maes yr Haf and Maeshenffordd;**

**Polyn Baner Neuadd y Dref / Guildhall Flagpole;**

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.30yh.***

*There being no further business to discuss, the meeting closed at 7.30pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....